Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid ychwanegol 2025-26 yn ystod y flwyddyn ar gyfer darpariaeth conservatoire cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio

**Dyddiad:** 16 Rhagfyr 2025
**Cyfeirnod:** Medr/2025/35

**At**: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch

**Ymateb erbyn:** Nid oes angen ymateb
**Mwy o wybodaeth:** Gareth Lanagan | buddsoddiapherfformiad@medr.cymru


**Crynodeb**

Mae £1,970,000 wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, drwy Brif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio, i gefnogi darpariaeth addysg uwch sy'n seiliedig ar berfformio mewn conservatoires cerddoriaeth a drama.

Mae'r cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol 2025-26, ac i gydnabod y cynnydd yng nghostau conservatoires cerddoriaeth a pherfformio. Bydd Medr yn darparu cyllid i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC), drwy Brifysgol De Cymru (PDC), sef yr unig sefydliad addysg uwch (SAU) perthnasol sy'n darparu conservatoire cerddoriaeth a pherfformio.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Darpariaeth cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio**

Ar 14 Hydref dyrannodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol £1.97m o gyllid ychwanegol wedi'i neilltuo Brif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio i gefnogi darpariaeth addysg uwch mewn conservatoires cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio.

Bydd yr £1.97m yn cael ei ddyrannu i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru drwy Brifysgol De Cymru, sef yr unig sefydliad addysg uwch perthnasol sy'n darparu conservatoire cerddoriaeth a pherfformio.

Bydd yr £1.97m yn cael ei rannu'n ddwy ran:

i) Bydd £1.75m yn cael ei ddyrannu drwy gynnydd i'r gyfradd fesul uned sy'n berthnasol i'r Ddarpariaeth Pynciau Drud ar gyfer darpariaeth conservatoire.

ii) Bydd £0.22m yn cael ei ddyrannu drwy'r gyllideb sy'n gysylltiedig â pherfformiad, yn benodol i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth drwy ganolfannau rhanbarthol.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government